# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Shire Hall**

**Cartref Gofal Shire Hall**
**Overstone Court**
**Caerdydd**
**CF10 5NT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Shire Hall

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Hallmark Care Homes (Bute Town) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 99 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24 Hydref 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u perthnasau yn disgrifio'r cartref hwn yn gyson fel cartref rhagorol. Mae'r bobl yn cael gofal mewn ffordd urddasol a pharchus. Mae'r nyrsys a'r staff gofal yn rhagweithiol, yn ymatebol ac yn dosturiol. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn deall sut i'w cefnogi. Mae'r profiad bwyta yn hamddenol, yn ddigyffro ac yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau drwy gydol yr wythnos. Caiff y bwyd ei gyflwyno mewn ffordd dda iawn. Mae cogydd a thîm cegin gwybodus a brwdfrydig yn y cartref. Mae'r bobl yn mwynhau gwasanaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau, ac mae gweithgareddau ar gael bob dydd. Rhoddir ystyriaeth ychwanegol i ynysigrwydd cymdeithasol, a gwelsom ymrwymiad i gynnig digwyddiadau a gweithgareddau personol ac ystyrlon i unigolion. Mae timau penodol ym mhob maes sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn hwylus a'i fod yn effeithlon. Mae'r tîm cyfan o staff, sy'n cynnwys gofalwyr, nyrsys, staff cadw tŷ, staff gweithgareddau, staff cynnal a chadw a staff rheoli, yn gweithredu'n unol â'r un gwerthoedd ac ethos cryf. Mae amrywiaeth o aelodau o uwch-staff yn goruchwylio'r gwasanaeth yn gadarn. Caiff camau amserol eu cymryd i ymdrin ag unrhyw bryderon. Mae ymrwymiad gwirioneddol i wella, a gwelsom fod y manylion lleiaf yn cael eu nodi a bod camau amlwg yn cael eu cymryd i ymdrin â nhw.

## Llesiant

Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael llawer o gyfleoedd i roi adborth am y gwasanaeth, boed ar lafar, drwy gyfarfodydd neu drwy arolygon. Mae urddas a pharch yn chwarae rhan amlwg yn y cartref.  Caiff y bobl eu cynnwys yn rheolaidd wrth adolygu eu gofal a gallant wneud newidiadau lle a phan fo angen gwneud hynny. Mae'r bobl na allant wneud hynny ar eu pen eu hunain yn cael cymorth gan aelodau o'u teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Cynigir dewisiadau i'r bobl yn rheolaidd. Gwelsom amrywiaeth o ddewisiadau yn cael eu cynnig yn ystod prydau bwyd ac o ran gweithgareddau.

Mae amrywiaeth o weithgareddau i'r bobl gymryd rhan ynddynt. Gall y gweithgareddau hyn gynnig ymdeimlad o berthyn, perchnogaeth, rheolaeth a llesiant emosiynol iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau mynd i ddigwyddiadau gyda'u ffrindiau i wylio canu a dawnsio. Caiff anghenion unigol y bobl eu hystyried a rhoddir ystyriaeth arbennig i gynnig gweithgareddau a digwyddiadau ystyrlon a phersonol i'r bobl. Caiff y bobl gymorth i arfer eu ffydd. Gall y bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth hefyd yn annog gwirfoddolwyr a digwyddiadau sy'n cynnwys y gymuned leol. Caiff iechyd y bobl ei fonitro a chymerir unrhyw gamau gweithredu mewn modd amserol. Mae'r profiad bwyta yn hamddenol. Rhoddir dewisiadau i'r bobl a chânt lefel rhagorol o gymorth gan y staff gofal. Caiff y bwyd ei gyflwyno mewn ffordd dda iawn.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r staff gofal yn destun proses fetio a recriwtio drylwyr ac mae'r rheolwr yn sicrhau bod sgiliau, gwybodaeth ac addasrwydd y staff yn parhau'n berthnasol. Mae gan y staff gofal lefel dda o ddealltwriaeth o sut i roi gwybod am bryderon. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth roi gwybod am bryderon i'r staff gofal neu i'r tîm rheoli. Dywedodd y perthnasau wrthym fod cyfathrebu rhagorol rhyngddynt hwy a'r gwasanaeth, a bod ganddynt hyder yn y tîm rheoli.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref cynnes a deniadol. Mae'r gwasanaeth yn eithriadol o lân ac yn cynnwys amrywiaeth o ardaloedd a chyfleusterau i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn cynnwys ystafell ymolchi ensuite. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y cartref yn ddiogel a bod digon o gyfarpar priodol i'r bobl gael cymorth gyda'u symudedd. Mae'r tîm rheoli a swyddog cynnal a chadw yn goruchwylio'r cartref yn dda.

## Gofal a Chymorth

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y cartref ac yn cyd-dynnu â phob un o'r staff gofal. Mae'r bobl a'u perthnasau yn disgrifio'r gwasanaeth fel gwasanaeth rhagorol. Dywedodd un unigolyn, "*If I had to be anywhere, this is where I would choose*". Gwelsom sgyrsiau rheolaidd rhwng y bobl a'r staff gofal a chryn dipyn o chwerthin. Mae'r staff yn trin y bobl â charedigrwydd a pharch. Mae'r staff yn curo ar ddrysau cyn mynd i mewn, yn cyfarch y bobl gan ddefnyddio eu henw ac yn mynd atynt mewn ffordd dyner i'w hannog a'u cefnogi. Caiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu cynnwys wrth adolygu eu gofal yn rheolaidd. Mae'r cynlluniau gofal yn fanwl, yn bersonol ac yn adlewyrchu anghenion y bobl a'r bywyd y maent am ei fyw. Mae arolygon, holiaduron a chyfleoedd i roi adborth uniongyrchol ar gael yn rheolaidd i'r bobl. Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu trefnu i'r preswylwyr a'u perthnasau. Defnyddir llwyfannau ar-lein i alluogi'r bobl i fynd i gyfarfodydd hyd yn oed os na allant wneud hynny'n gorfforol neu i berthnasau sy'n byw ymhell i ffwrdd. Mae'r gwasanaeth yn annog cymaint o bobl â phosibl i fynychu'r cyfarfodydd er mwyn iddynt allu lleisio eu barn.

Mae tîm ffordd o fyw penodedig ar waith sy'n sicrhau bod gweithgareddau rheolaidd ac amrywiol ar gael i'r bobl. Gwelsom ymroddiad i gefnogi'r bobl i ddiwallu eu hanghenion emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol. Anogir y bobl i arfer eu ffydd yn rheolaidd a chaiff y bobl gymorth i fynd i'r eglwys/capel. Lle bo symudedd y bobl o bosibl yn eu hatal rhag gwneud hyn, defnyddir llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol i sicrhau y gall y bobl barhau i arfer eu credoau a'u ffydd arferol. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y gweithgareddau sydd ar gael yn rhoi ymdeimlad o ddiben i'w hanwyliaid ac yn sicrhau cyfleoedd iddynt ryngweithio'n gymdeithasol. Gwelsom fod rhai gweithgareddau yn cael eu rhedeg a'u hwyluso gan bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedodd un unigolyn wrthym "*always something different morning and afternoon".* Mae'r tîm yn ystyried lefelau ymgysylltu a rhyngweithio ac yn nodi'n gyflym os bydd rhywun o bosibl yn cael ei ynysu'n gymdeithasol.

Gall y bobl fwynhau eu prydau mewn ystafelloedd bwyta sydd wedi'u trefnu'n briodol, ac maent yn cael lefelau cymorth rhagorol gan y staff gofal. Mae'r profiad bwyta yn hamddenol ac yn ddigyffro. Mae'r bwyd yn boeth adeg ei weini ac wedi'i gyflwyno mewn ffordd dda iawn. Caiff bwyd hefyd ei weini ar 'blatiau arddangos' er mwyn i'r staff ddangos i'r bobl beth y mae'r fwydlen yn cyfeirio ato a chynnig dewisiadau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd, a dywedodd unigolyn wrthym '*the menu is excellent'*. Mae'r cogydd yn gwneud ymdrech frwd i ddod o hyd i gynnyrch lleol a ffres. Mae gan dîm y gegin lefel dda o wybodaeth am y bobl y maent yn darparu ar eu cyfer. Mae digonedd o fwyd ac mae byrbrydau ychwanegol ar gael bob amser.

Caiff bwyd a diod y bobl eu monitro os bydd angen er mwyn nodi unrhyw bryderon iechyd. Mae'r staff yn goruchwylio'r cofnodion yn dda ac yn monitro iechyd y bobl yn rheolaidd. Mae systemau da ar waith i sicrhau bod staff yn gwybod pa gofnodion sydd eu hangen. Defnyddir system rybuddio i nodi pan fydd rhywun o bosibl yn wynebu risg ychwanegol mewn perthynas â materion iechyd megis colli pwysau neu iechyd y croen.

Caiff meddyginiaethau eu rhoi yn y ffordd gywir. Mae siart Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth electronig ar waith sy'n glir ac yn darparu goruchwyliaeth ragorol mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth. Mae'r cofnodion yn cynnwys manylion pwysig fel alergeddau, er mwyn lleihau'r risg i'r bobl. Yn ôl yr hyn a welwyd, mae'r nyrsys a'r staff gofal yn gymwys ac yn wybodus iawn yn eu rolau.

## Yr Amgylchedd

Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o ardaloedd a chyfleusterau i'r bobl eu defnyddio. Mae gardd ddeniadol iawn y gall y bobl ei defnyddio. Gwelsom y bobl yn mwynhau yn yr ardd, gyda'r staff gofal neu berthnasau. Mae ystafell sinema, ystafell weithgareddau, tafarn a chaffi ar gael hefyd. Gwelsom y bobl yn defnyddio'r caffi yn rheolaidd gyda'u perthnasau. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod y cacennau cartref ffres yn flasus iawn. Caiff ystafelloedd gwely'r bobl eu personoli â'u heiddo personol, ac maent yn cynnwys ystafell ymolchi ensuite. Mae aelodau'r tîm cadw tŷ yn y cartref yn cyfarch y bobl mewn ffordd garedig ac yn cadarnhau gyda'r bobl eu bod hi'n iawn iddynt lanhau neu hwfro er mwyn sicrhau nad ydynt yn tarfu arnynt. Mae systemau rheoli heintiau da ar waith. Mae'r staff gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, defnyddir systemau codau lliw a chaiff y trefniadau ar gyfer golchi dillad eu rheoli'n dda. Mae'r gwasanaeth yn eithriadol o lân. Dywedodd un perthynas wrthym '*cleaners are here all the time'* a dywedodd un arall, '*bedrooms are always nice and clean'*. Disgrifiodd un unigolyn y gwasanaeth fel '*absolutely wonderful'.*

Mae'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae clo bysellbad wedi'i osod ar y drysau i'w cadw'n ddiogel. Mae'r bobl sy'n gallu defnyddio'r cyfleusterau ar eu pen eu hunain yn ddiogel yn ymwybodol o'r codau sydd eu hangen, sy'n eu galluogi i fynd i ardaloedd o'r cartref yn annibynnol os dymunant. Cynhelir asesiadau risg priodol ar gyfer y bobl cyn defnyddio cyfarpar i'w helpu i symud o gwmpas. Mae'r staff gofal yn ymgymryd â gwiriad gwybodaeth Symud a Chodi a Chario yn ystod eu cyfnod sefydlu. Gwelsom y staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn ffordd briodol wrth ddefnyddio'r cymorth symudedd cywir. Mae'r staff gofal yn gwneud hyn mewn ffordd ddigyffro, glir ac urddasol. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd gan weithwyr proffesiynol. Mae Asesiadau Risg ar waith i sicrhau y caiff risgiau eu nodi a'u lleihau. Mae swyddog cynnal a chadw yn gweithio yn y gwasanaeth er mwyn ei oruchwylio a chynnal unrhyw waith sydd ei angen. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd mân enghreifftiau o ôl traul, fel marciau bach ar y waliau a rhywfaint o ddifrod i'r drysau. Gwelsom fod camau yn cael eu cymryd gan y swyddog cynnal a chadw i unioni hyn. Mae'r tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn goruchwylio'r amgylchedd drwy arsylwadau, ymweliadau ac archwiliadau. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl ac mae cyfarpar diffodd tân ar gael ym mhob rhan o'r adeilad. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod rhai o ddrysau'r ardaloedd storio ar agor a ddylai fod ar gau, ond nid oeddent yn cynnwys unrhyw gynhyrchion peryglus ar y pryd a gweithredodd y tîm rheoli yn gyflym i unioni hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau trylwyr a chadarn ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Gwelsom gofnodion manwl a oedd yn dangos bod camau gweithredu yn cael eu cymryd yn gyflym mewn perthynas ag unrhyw bryderon. Mae'r gwasanaeth yn gwneud ymdrech eithriadol i roi mesurau ar waith i alluogi'r bobl i gyfathrebu â'u perthnasau. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod y cyfathrebu yn rhagorol a'u bod yn cael gwybod yn rheolaidd os bydd unrhyw newidiadau. Gwelsom fod adolygiadau manwl a thrylwyr ar waith sy'n cynnwys yr unigolyn, ei berthynas a/neu weithwyr proffesiynol. Caiff y bobl eu hannog i roi adborth i'r gwasanaeth ar unrhyw feysydd y gellid eu gwella, yn eu barn nhw, ac i roi adborth cadarnhaol hefyd. Caiff cardiau lluniau a matiau siarad eu defnyddio i alluogi'r bobl i gyflwyno eu hadborth mewn gwahanol ffyrdd. Caiff dogfen 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' ei chynhyrchu sy'n ymateb i unrhyw bryderon a gaiff eu codi ac sy'n rhoi sicrwydd ac eglurder o ran y camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i wneud gwelliannau.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cael adborth uniongyrchol gan y bobl a'r staff gofal. Cynhelir adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r ddogfen hon yn ddadansoddol dros ben ac yn nodi'r meysydd i'w gwella, cynnydd a chyflawniadau yn glir. Cynhelir archwiliadau rheolaidd a thryloyw er mwyn gallu parhau i oruchwylio'r gwasanaeth a galluogi gwelliannau. Caiff tueddiadau a phatrymau eu nodi a gweithredir arnynt. Gwelsom fod y cofnodion hyn yn gyson yn nodi'r manylion lleiaf er mwyn cyfoethogi'r gwelliannau a wneir yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl, eu perthnasau a'r staff yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod i'r rheolwr am bryderon. Mae'r cofnodion yn dangos bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael gwybod mewn modd amserol am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i atal unrhyw risgiau pellach. Mae'r staff yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon yn fewnol ac yn allanol. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth mewn ffordd ragorol ac yn meddu ar wybodaeth ragorol am y gwasanaeth.

Mae'r staff gofal yn gyfeillgar iawn, yn hawdd mynd atynt ac yn garedig. Mae'r staff gofal a'r Nyrsys yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda iawn. Dywedodd un perthynas wrthym '*The way they look after Mum is great'.* Mae'r staff gofal yn destun gweithdrefn recriwtio drylwyr. Caiff hyfforddiant wyneb yn wyneb ei gwblhau yn ystod y cyfnod sefydlu, yn ogystal â hyfforddiant ar-lein. Cynhelir hyfforddiant penodol ar ofal y geg ac asesiadau cymhwysedd megis helpu pobl i fwyta ac yfed hefyd. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y staff, ac yn gwirio cofrestriadau nyrsio er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio o hyd. Caiff y staff gofal eu goruchwylio'n rheolaidd a chynhelir arfarniadau blynyddol. Mae'r cyfarfodydd tîm yn dangos cyfathrebu agored rhwng y tîm a'r uwch-staff. Caiff aelodau o'r tîm eu cydnabod am eu cyflawniadau a gwelsom fod y staff gofal a'r nyrsys yn cael eu cydnabod drwy broses wobrwyo. Dywedodd un person wrthym '*staff are amazing'*.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/11/2023